WG 35. £ 221

# MARWNAD:

ER COFFADWRIAETH

AM Y

## PARCH. JOHN WILLIAMS,

*PANTYCELYN,*

SWYDD GAERFYRDDIN,

Yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd hon, Mehefin 5*ed*, 1828, yn 74 oed.

---

## GAN AB CILYDD.

---

*Gadawodd ei feddiannau personol fel y canlyn:*

£100 i Gymdeithas Genhadol Llundain; £100 i Gymdeithas Genhadol yr Eglwys; £100 i Gymdeithas Ysgol y Gwyddelod; £100 tuag at dalu traul sydd yn aros ar Addoldai y Trefnyddion Calvinaidd yn swydd Frycheiniog: a'r gweddill o'i arian ar ol tala rhai rhoddion, rhwng y tair Cymdeithas uchod.

*LLANYMDDYFRI:*

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN JEFFREY JONES.

1828.

X2605 317439

# MARWNAD, &c.

Tôn, "*Anhawdd Ymadael.*"

1 Fy awen, bydd barod,
Ni chenaist erio'd
I wrthddrych daearol,
Mwy teilwng o glod;
Dy rediad fo'n gyson,
Dy eiriau fo'n bur,
'Does achos helaethu
Terfynau y gwir.

2 Fel dyn, ac fel Cristion,
Fel cyfaill, fel brawd,
Dysgawdwr, hyfforddwr,
A noddwr i'r tlawd;
Fel câr, fel cymydog,
Gweinidog Duw Ner,
Hyd oesoedd diderfyn
Ei enw fydd bêr.

3 Chwi, gorff y Trefnyddion,
A welaf yn drist,
Am golli un ffyddlon
O winllan ei Grist;
Ei gyfoeth a'i ddoniau,
Oedd barod bob pryd,
I lwyddo'ch da achos
Trwy Gymru i gyd.

4 I'r achos Cenhadol
A Beiblaidd, Pwy sydd
Mòr barod i roddi—
Pwy etto a fydd?
Mae cannoedd yn dystion
O'i awydd a'i fryd,
Am daenu'r Efengyl
Trwy bedwar parth byd.

5 Fe brofodd ei gariad
At achos Duw Ior,
Trwy adael o'i gyfoeth
I'w gàrio dros fôr,
I blith y paganiaid,
Rhai duon eu lliw;
Cânt achos i'w gofio
Tra byddont hwy byw.

6 Daw plant y Gwyddelod,
I daenu ei glod,
Trwy goffa eu noddwr
Mewn oesoedd i dd'od;
Canmolant ei enw,
Bendithiant ei ddydd
Am gael d'od o gyffion
Pabyddiaeth yn rhydd.

7 Cymdeithas y Beiblau,
Dewch chwi yn y blaen,
A dygwch dystiolaeth
I wrthddrych fy nghân—
Ei gôd oedd agored—
Dangosodd gan' waith,

Trwy helaeth gyfraniad,
Ei gariad i'ch gwaith.

8 Cymdeithas Genhadol
Yr Eglwys, yn rhwydd
Dangosai y carai
O'i galon eich llwydd;
Pob enw o Grist'nogion
A garai Fab Duw,
A gerid gan *Williams*
Tra fu efe byw.

9 Ni fynai iselu
Un enw dàn nef,
Am na faent mewn pob peth
'R un feddwl ag ef;
E fedrai lawenu
Yn llwyddiant pob un,
Ac hefyd, goleddu
Ei enwad ei hun.

10 Ei gyd-weinidogion,
A'i frodyr mewn ffydd,
A gofiant am dano
Tra dàlio eu dydd:
Ei gynghor oedd fuddiol—
Hwy barchent ei air,
Ac yn eu mynwesau
Parch bythol a gair

11 Nid âi uwch bên tyrfa,
I ddangos ei ddysg,
Gwnai'i hun yn ddeallus
I'r gwana'n eu mysg;

Mewn geiriau f'ai'n eglur,
Dangosai i bob rhyw,
Mai heb eu hail-eni,
Na welent mo Dduw.

12 'Cha'dd neb yn ei ardal
Ei barchu'n fwy erio'd,
Gan wreng a bonheddig,
Teilyngai ef glod;
At uchel ac isel,
Goludog a thlawd,
Pan geisient gymwynas,
Ymddygai fel brawd.

13 Ei ddysg a'i wybodaeth
Gyssegrai i'r swydd,
O wneuthur daioni
I'r rhei'ny yn rhwydd;
Mewn achos o glefyd,
Cyfyngdra neu gwyn,
Cynghorai, hyfforddai—
E fyddai ef fwyn.

14 Rho'i fenthyg ei lyfrai,
Os byddai'n eu mysg
Un person yn chwennych
Gwybodaeth a dysg:
Cefnogai wybodaeth
F'ai'n fuddiol i fyw,
A marw yn ddedwydd
Yn heddwch ein Duw.

15 Mi glywa'n griddfanu,
Dylodion ei blwyf,

Gan dd'wedyd mewn galar,
  "Ni gawsom ddwfn glwyf,
Collasom ein noddwr,
  Ein rhoddwr di-rith,
Nis gwelsom ail iddo—
  Nis gwelwn ni byth."

16 Am roddi elusen
  I dlodion ei dir,
Fe deimlir ei golled,
  Fe'i cofir yn hir;
Ei galon oedd dyner,
  A rhoddai yn hael
O'i gyfoeth i borthi
  'R anghenus a'r gwael.

17 Mae cariad Crist'nogol,
  Lle bynag y mae,
Yn gweithio gwir gariad
  At bawb yn ddilai;
Ceir gwel'd yn y ffrwythau,
  Os byddwn ni'n byw,
Mewn meddiant diragrith
  O gariad ein Duw.

18 'Roedd ffrwythau Glân Ysbryd
  Y bywyd a ffydd
I'w gwel'd yn ei fuchedd
  Yn amlwg bob dydd;
'Roedd cymwynasgarwch
  A heddwch o hyd,
Tangnefedd a chariad
  Yn llenwi ei fryd.

19 O'i faboed i fynu,
Ymddygai'n ddifai,
Gwir grefydd a garai—
Ddilynai'n ddilai;
Ni chafwyd anghydfod
Yn ystod ei oes,
Rhwng ei enw a'i rodiad,
Ei broffes a'i foes.

20 Ei fywyd oedd fywyd
O weddi a gras,
O dymher garuaidd,—
O grefydd mewn blas;
'Doedd cyfoeth a doniau
'N ei olwg ond dim,
Heb fod yn feddiannydd
Ar Grefydd mewn grym.

21 'Rol gweini i'w bobl
Am flwyddi tra maith,
Yr Arglwydd a'i cym'rodd
O'i winllan a'i waith,
Fel ysgub f'ai'n aeddfed
I gynheuaf ei Dduw,
Fe'i cym'rodd o'r ddaear
I'r nefoedd i fyw.

22 Mae heddyw'n Nghaer Salem,
'Dwy'n ammeu mo hyn,
Yn mhlith yr angelion
Sy a'u gwisgoedd yn wŷn;
Ca'dd roesaw tra llawen
I mewn i'r lòn wlad,

Ac f'allai gyfarfod
  Hen *Williams* ei dad.

23 Yr hen wr a ganodd
  Yn felus o'r bla'n,
Eich dau ydynt heddyw
  Felusach eu cân;
Heb alar na gofid,
  Na chlefyd na chlwy'
Mewn cyflawn ddedwyddwch
  Y byddant byth mwy.

24 Hen dŷ Pantycelyn!
  'Rwy'n credu na chai
O'th fewn i anneddu
  Fyth etto'r fath ddau:
Tra câreg ar gâreg
  O honot yn bod,
Fe gofir eu henwau,—
  Byth cenir eu clod.

*DIWEDD.*

*J. Jones, Argraffydd, Llanymddyfri.*